OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 700 (Cy.107)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mawrth 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac (e), 17(1) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio(**2**) ynddynt hwy.

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 16, 17 a 48 gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ("Deddf 1999") a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd adran 17 hefyd gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 12 o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd adran 48 hefyd gan adran 40(1) o Ddeddf 1999 a pharagraff 21 o Atodlen 5 iddi, a chan O.S. 2004/2990.

(**2**) Cafodd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, mewn perthynas â Chymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol sy'n ymwneud yn eu tro ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac, mewn perthynas â'r Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

**Diwygio Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2) o reoliad 2—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (ch), hepgorer y gair "a";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (d), rhodder "; ac" yn lle'r atalnod llawn; ac

(c) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(dd) ac yntau'n fwyd ac iddo'r disgrifiad neilltuedig "fruit juice from concentrate", os yw'n cydymffurfio â'r lefel Brix ofynnol a bennir yn Atodlen 6, o'i darllen ynghyd â'r Nodiadau i'r Atodlen honno.".

(3) Yn rheoliad 5—

(a) yn lle paragraff (ch) rhodder—

"(ch) yn achos—

(i) cymysgedd o sudd ffrwythau a sudd ffrwythau o ddwysfwyd sydd wedi ei farcio neu wedi ei labelu â'r un disgrifiad neilltuedig "fruit juice" (neu ddisgrifiad arall o'r fath y mae'n ofynnol ei gael yn lle'r disgrifiad "fruit juice" yn unol â'r amodau sy'n rhagflaenu Colofn 1 (disgrifiadau neilltuedig) yn Atodlen 1), neu

(ii) neithdar ffrwythau a gafwyd yn rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig,

bod ei labelu yn dwyn y geiriau "partially from concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "partially from concentrates", bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;"; a

(b) yn lle paragraff (d) rhodder—

"(d) yn achos neithdar ffrwythau a gafwyd yn gyfan gwbl o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig, y mae ei labelu yn dwyn y geiriau "from concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "from concentrates", a bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;".

(4) Yn Atodlen 1—

(a) yng ngholofn 2 o eitem 3 (Fruit juice from concentrate), mewnosoder ar y diwedd—

"Mae'r lefelau Brix gofynnol ar gyfer suddoedd ffrwythau o ddwysfwyd wedi eu nodi yn Atodlen 6."; a

(b) yng ngholofn 2 o eitem 5 (Fruit nectar), yn lle "Atodlen 4" rhodder "Atodlen 5" yn y naill le a'r llall.

(5) Ar ôl Atodlen 5, mewnosoder Atodlen 6 fel y mae wedi ei osod yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2003/3041 (Cy.286); fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy.247), 2009/3377 (Cy.299) a 2009/3378 (Cy.300).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2011